PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 15 MEHEFIN 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Ash-Edwards, Ferguson-Thorne, Hunt, Jones, Reid-Jones, Robson a/ac Sattar |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2 : PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD

Nodi i’r Cyngor, yn ei gyfarfod Blynyddol ar 26 Mai 2022, benodi’r Cynghorydd Ed Stubbs fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn a'r Cynghorydd Irene Humphreys fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

3 : PENODI’R PWYLLGOR A’R CYLCH GORCHWYL

Nodi i’r Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 26 Mai 2022, benodi’r Pwyllgor hwn gyda’r aelodaeth a’r Cylch Gorchwyl canlynol:

**Aelodaeth:**
Y Cynghorwyr: Ali Ahmed, Ash-Edwards, Ferguson-Thorne Humphreys, Hunt, Jackie Jones, Emma Reid-Jones, Robson, Sattar a Stubbs (2 swydd wag)

**Cylch Gorchwyl:**

Y rheiny a restrir yn Adran A Atodlen 1 Rheoliadau Trefniadau Gweithredol yr Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ac unrhyw ddiwygiadau o ran hynny ac unrhyw faterion ategol hefyd fel y diffinnir yn Rheoliad 4(2) i (6) y Rheoliadau.

Y swyddogaethau hynny a restrir ym mharagraffau 1 - 12 Atodlen 1 Rheoliadau Trefniadau Gweithredol yr Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ac unrhyw ddiwygiadau o ran hynny ac unrhyw faterion ategol hefyd fel y diffinnir yn Rheoliad 4(2) i (6) y Rheoliadau.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

| Cynghorydd | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Irene Humphreys | 22/00475/MJR | Buddiant Rhagfarnus – mae’n eistedd ar Gyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a’r Fro sy’n cefnogi'r cais |
| Y Cynghorydd Jackie Jones | 22/01123/MJR<br>18/00736/MNR | Buddiant Rhagfarnus – mae’n siarad fel Cynghorydd Ward |

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 6 Ebrill 2022 yn gofnod cywir a chawson nhw eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : DEISEBAU

1. 20/01110/MJR, Ysbyty'r Eglwys Newydd, Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd
2. 18/00736/MNR, 71 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd

Mewn perthynas ag 1 uchod, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr asiant.

7 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried atodlen cais rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

CEISIADAU Y PENDERFYNWYD EU CYMERADWYO YN AMODOL AR YMRWYMO I GYTUNDEB ADRAN 106 RHWYMOL:

21/02883/MJR – BUTETOWN

CAM 2, PLOT 1, CEI CANOLOG AR HEN SAFLE'R BRAGDY, STRYD CRAWSHAY. Cais cynllunio llawn ar gyfer adeilad defnydd cymysg sy'n darparu defnyddiau masnachol ar lefel y llawr gwaelod / mesanîn (dosbarthiadau defnydd A1/A2/A3/B1/D1/D2) a datblygiad preswyl uchod (dosbarth defnydd C3), tirlunio gan gynnwys sgwâr cyhoeddus newydd (Sgwâr Simnai), mannau parcio ceir a beiciau cysylltiedig, mynediad, draenio a gwaith seilwaith arall sy'n ofynnol ar gyfer darparu'r cei canolog (cam 2, plot 1)

Yn ar amodol ar ddiwygio paragraff 3.11 i nodi:

'Cynigir mannau parcio, a fydd yn cael eu dyrannu i unedau preswyl, gyda 3 ohonynt yn fannau parcio dynodedig i bobl anabl. Mae'r maes parcio wedi'i leoli i'r gogledd-ddwyrain o'r safle a gellir ei gyrraedd drwy ddefnyddio lôn wasanaeth gefn, gyda phen troi yn y gornel i'r gogledd-ddwyrain. Bydd hyn wedyn yn arwain at lwybr cerbydau dwy ffordd rhannol y boulevard, gan gysylltu â'r ffordd fynediad presennol ar Stryd Crawshay'

Yn ar amodol ar ddiwygio paragraff 9.43 i nodi:

"Ystyrir bod yr unedau preswyl arfaethedig yn faint rhesymol a byddant yn derbyn lefelau digonol o olygfa ac awyru. Mae'r cais yn cynnig 78 o falconïau ar gyfer y 402 o unedau sy'n cyfateb i 25% o'r unedau cyffredinol'

21/02884/MJR – BUTETOWN

CAM 2, PLOT 1, CEI CANOLOG AR HEN SAFLE'R BRAGDY, STRYD CRAWSHAY

Cais cynllunio llawn ar gyfer adeilad defnydd cymysg sy'n darparu defnyddiau masnachol ar lefel y llawr gwaelod / mesanîn (dosbarthiadau defnydd A1/A2/A3/B1/D1/D2) a datblygiad preswyl uchod (dosbarth defnydd C3), tirlunio gan gynnwys sgwâr cyhoeddus newydd (Sgwâr Simnai), mannau parcio ceir a beiciau cysylltiedig, mynediad, draenio a gwaith seilwaith arall sy'n ofynnol ar gyfer darparu'r cei canolog (cam 2, plot 2)

Yn ar amodol ar ddiwygio paragraff 10.46 i nodi:

"Ystyrir bod yr unedau preswyl arfaethedig yn faint rhesymol a byddant yn derbyn lefelau digonol o olygfa ac awyru. Mae'r cais yn cynnig 59 o falconïau ar gyfer y 316 o unedau sy'n cyfateb i 19% o'r unedau cyffredinol'

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

22/00475/MJR – YR EGLWYS NEWYDD/TONGWYNLAIS

FFORDD FYNEDIAD I YSBYTY'R EGLWYS NEWYDD/HEOL Y PARC
Cyflawni Amod 9 (Cynllun gwaith priffordd ar gyfer Heol y Parc a'r ffordd fynediad i Ysbyty'r Eglwys Newydd yn 20/20110/MHJ

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle gael ei gynnal.

18/00736/MNR – YR EGLWYS NEWYDD/TONGWYNLAIS

14 HEOL YR EGLWYS
Cynnig dymchwel y garej / adeilad allanol, adeiladu annedd ar wahân 3 llawr newydd, garej ar wahân newydd gyda stiwdio uwchben a chyswllt gwydr i'r annedd presennol.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle gael ei gynnal.

8 : GORCHYMYN CADW COED 775 - 2 DAN Y BRYN AVENUE, RADUR

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Pwyllgor y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Dinas a Sir Caerdydd (Dan y Bryn Avenue, Radur) heb addasiadau.

9 : CEISIADAU A BENNIR GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd

10 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - I'W GADARNHAU

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm